

# CORONAFEIRWS (COVID-19): FFRAMWAITH DIGWYDDIADAU YN Y GWEITHLE

## Pwrpas

Mae Coronafeirws (COVID-19): Fframwaith Digwyddiadau yn y Gweithle yn darparu cyngor i uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am ddiogelwch parhaus y gweithlu, rheolwyr, undebau llafur yn cynnwys cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch lleol a gweithwyr allweddol sy'n gorfod gweithredu o adeiladau swyddogol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ar ran y Llywodraeth i'r dinasyddion sy'n dibynnu arnynt. Mae'n berthnasol hefyd i dimau arbenigol sy'n cael eu cynnull yn rhithwir i gynghori ar faterion sy'n codi o haint tybiedig. Dylai'r defnydd o'r fframwaith hwn yn Llywodraeth Cymru ar gyfer ei staff a'i hadeiladau ei hun fod yn gyson â'i pholisïau a'i chanllawiau ar COVID-19.

## Cyd-destun

Mae'r fframwaith digwyddiadau hwn (gweler Atodiad A) yn dod i rym unwaith y ceir achos posibl neu achos wedi'i gadarnhau o COVID-19 yn un o adeiladau Llywodraeth Cymru.

Mae'r coronafeirws yn cyflwyno heriau digynsail i weision sifil a Llywodraeth Cymru ac mae angen camau gweithredu deinamig a brys o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwyr a'r Undebau wedi ymrwymo i weithio mewn ewyllys da ac mewn partneriaeth i ddiogelu unigolion, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn y ffordd orau. Mae'r ddwy ochr wedi ymrwymo i drafodaethau cynnar ac agored gyda golwg ar ddatrys unrhyw broblemau neu bryderon yn gyflym ac, yn fwy pwysig, gwneud hynny drwy gytundeb.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godir yn gyflym ac effeithiol dylech ddefnyddio arbenigedd nifer o dimau a staff gwahanol, yn cynnwys:

- Timau lechyd a Diogelwch
- Rheolwyr Cyfleusterau
- Timau Adnoddau Dynol
- Cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch lleol a chynrychiolwyr Undebau Llafur lleol/y gweithle

Mae'r fframwaith digwyddiadau'n rhagdybio bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd i sicrhau diogelwch yn y gwaith yn ystod cyfnod y coronafeirws pan na ellir gweithio gartref, yn unol â Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, [Diogelu Cymru yn y Gwaith](#): Canllawiau i gyflogwyr a gweithwyr gadw'n ddiogel yn y gweithle yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'r canllawiau canolog hyn yn darparu fframwaith i'w ddefnyddio a bydd yn cael ei ategu gan drafodaethau lleol yn cynnwys rheolwyr a chynrychiolwyr lechyd a Diogelwch/Undebau Llafur lleol, yn seiliedig ar wybodaeth am y gweithlu ac adeiladau sydd wedi'u heffeithio gan achosion posibl neu achosion a gadarnhawyd.

## Egwyddorion Craidd

- Mae iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, gweithwyr asiantaeth, contractwyr (y cyfeirir atynt i gyd fel staff yn y fframwaith hwn) ac ymwelwyr o'r pwys mwyaf.
- Mae'n rhaid i staff a Llywodraeth Cymru fel cyflogwr ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru a GIG Cymru mewn perthynas â monitro ar gyfer symptomau'r coronafeirws, adrodd am achosion posibl a hunanynysu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys adrodd am ddamweiniau a chwblhau adroddiadau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) angenrheidiol (<https://www.hse.gov.uk/news/riddor-reporting-coronavirus.htm>)
- Y person mwyaf priodol ar y safle sy'n gyfrifol am gamau gweithredu a gymerir yn dilyn halogiad posibl yn y gweithle. Er enghraifft, mae'n rhaid iddo ymgysylltu â'r cydweithwyr AD/Iechyd a Diogelwch uchaf eu statws ar y safle, y cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch lleol neu un y gweithle a chynrychiolwyr eraill Ochr yr Undebau Llafur /swyddog Iechyd a Diogelwch Ochr yr Undebau Llafur a chydweithiwr Rheoli Cyfleusterau cyn gynted ag sy'n bosibl, ond NI DDYLAI oedi cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ddiogelwch staff a grwpiau eraill os nad yw unigolion ar gael ar unwaith.
- Cyn agor gweithle i staff i weithio yn ystod cyfnod y coronafeirws, bydd asesiad risg wedi'i gynnal a bydd ar gael i'r holl staff. Pan fydd achosion wedi lluosogi/cynyddu'n ddifrifol sy'n awgrymu nad oedd y mesurau lliniaru risg cychwynnol wedi bod yn gwbl effeithiol, mae'n rhaid adlewyrchu hyn mewn asesiad risg wedi'i adolygu, a'r camau sy'n dilyn hynny.
- Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym, yn seiliedig ar asesiad risg, a rhaid iddynt fod yn gymesur â'r risg dan sylw. I alluogi hyn, ac i alw cyd-grŵp at ei gilydd yn gyflym, dylai undebau lleol neu Ochr yr Undebau Llafur ddarparu pwynt cyswllt dyddiol ar gyfer pob adeilad i'r Rheolwr Cyfleusterau Adeiladau perthnasol.
- Os oes gan unigolyn achos posibl neu achos a gadarnhawyd o COVID-19, yr ymateb lleiaf posibl fydd cau'r ardal honno o'r gweithle'n syth..
- Gweithredu camau pellach i'w cymryd, mewn ymgynghoriad, am ddigwyddiadau o'r fath, yn gyflym - yn cynnwys unrhyw benderfyniad i ehangu'r ardal sy'n cael ei chau; glanhau'r holl ardaloedd sydd wedi'u heffeithio'n drylwyr; gweithredu system olrhain cysylltiadau i helpu i benderfynu ar raddau'r gweithredu sydd ei angen, a sicrhau bod asesiadau risg addas yn cael eu cynnal cyn ailagor unrhyw ardaloedd o'r gweithle.

Mae'n bwysig cymryd camau i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u trefnu drwy gontract allanol yn trin eu gweithwyr yn briodol ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaethau iechyd a diogelwch i weithwyr y darparwyr hynny yn ogystal â'i staff ei hun a dylai sicrhau ei hun bod contractwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn hyn o beth.

## ATODIAD A: FFRAMWAITH DIGWYDDIADAU YN Y GWEITHLE

### **Y sefyllfa ar hyn o bryd**

Mae'n rhaid i'r holl staff a phob maes busnes gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau lledaeniad y coronafeirws, yn cynnwys cyngor ar gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu, Diogelu Cymru yn y Gwaith: Canllawiau i gyflogwyr a gweithwyr gadw'n ddiogel yn y gweithle yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) ac yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Mae'r canllawiau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae diweddariadau'r DU yn ymddangos ar gov.uk a byddant yn cael eu hysbysu i adrannau a gweinyddiaethau datganoledig drwy'r cyfarfodydd HRD rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi ei chanllawiau ei hun ar [llyw.cymru](https://llyw.cymru).

Mae'r fersiwn gyfredol o ganllawiau Llywodraeth Cymru, a ddiweddarwyd ar 2 Mehefin 2020 yn dweud:

### **Cadw'n Ddiogel: Iechyd y gweithlu**

Os bydd rhywun yn dechrau teimlo'n sâl yn y gweithle gyda pheswch parhaus, newydd; tymheredd uchel; a'i fod yn colli ei synnwyr arogleuo neu flas arferol neu fod hynny'n newid, dylai gael ei anfon adref a dylid ei gynghori i ddilyn y cyngor ar aros gartref.

<https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl#contents>

Mae'r fframwaith digwyddiadau'n darparu cyngor i uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am ddiogelwch parhaus y swyddfa ar y camau i'w cymryd yn gyflym mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Lleol a chan gynnwys cynrychiolwyr o dimau AD/Iechyd a Diogelwch yr adran ac Ochr yr Undebau Llafur a Rheoli Cyfleusterau.

## Fframwaith Digwyddiadau yn y Gweithle (Coronafeirws (COVID-19))

Mae'r 5 cam yn y fframwaith hwn yn berthnasol i achosion posibl ac achosion a gadarnhawyd. Gall difrifoldeb y camau gweithredu amrywio yn dibynnu ar yr asesiad risg, yn cynnwys gwybodaeth leol am y gweithle a'r gweithlu.

Rhif	Cam	Camau Gweithredu Gofynnol
1	<p><b>Gweithredu Ar Unwaith</b></p> <p>Bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar y safle'n ystyried ac yn penderfynu pa ardaloedd o'r adeilad y dylid eu gwacáu, gan gynnwys cynrychiolwyr AD, lechyd a Diogelwch, undebau llafur yn cynnwys cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch a Rheoli Cyfleusterau yn eu trafodaethau lle gellir cyflawni hyn yn gyflym.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Dylid cynnal a chofnodi adolygiad ac asesiad risg yn syth.</b></li> <li>• Bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn cau'r ardal a allai fod wedi'i heffeithio dros dro ac yn mynd ati gyda chynrychiolwyr AD, lechyd a Diogelwch, undebau llafur yn cynnwys cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch a Rheoli Cyfleusterau i asesu'r risg gyfredol i staff yn yr ardal honno. Bydd hyn yn ystyried y mesurau rheoli ar waith i leihau lledaeniad yr haint (er enghraifft, y ffordd mae'r gweithle wedi'i drefnu, cydymffurfiaeth â gofynion cadw pellter cymdeithasol, yn cynnwys seilwaith, ardaloedd cyffredin, ac ardaloedd hunangynhwysol), natur yr ardaloedd sydd wedi'u heffeithio a thueddiad staff ac ymwelwyr i gael yr haint.</li> <li>• Yn dilyn yr asesiad hwn bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol, gyda'r undebau llafur, yn penderfynu faint o adeilad sydd angen ei gau, am faint o amser a'r lefel/math o lanhau sydd ei angen.</li> <li>• Darparu'r holl wybodaeth iechyd a diogelwch, yn cynnwys asesiadau risg, i'r holl staff.</li> <li>• Bydd y digwyddiad yn cael ei gofnodi ar y system adrodd am ddamweiniau fel y gellir ymchwilio iddo.</li> </ul>
2	<p><b>Camau Dilynol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhaid i'r Uwch Swyddog Cyfrifol roi sylw i ddiogelwch staff ac ymwelwyr sydd o'r pwys mwyaf.</li> </ul>

	<p>Bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur lleol ac arweinwyr timau ar drefniadau olrhain cysylltiadau a chyda'r person cymwys, bydd yn asesu'r risg i staff ac ymwelwyr yn yr ardal, yn cynnwys cydweithwyr o AD, lechyd a Diogelwch, cynrychiolwyr undebau llafur yn cynnwys cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch a Rheolwyr Cyfleusterau ac yn gwneud trefniadau priodol ynghylch hunanynysu yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a GIG Cymru/lechyd Cyhoeddus Cymru, Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a chanllawiau Diogel Cymru yn y Gwaith (<a href="https://llyw.cymru/diogelu-cymru-yn-y-gwaith">https://llyw.cymru/diogelu-cymru-yn-y-gwaith</a>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gwybodaeth am nifer y staff a'r rhai sy'n gweithio ym mhob adeilad ac ardal weithredol ar y safle cyfan yn cael ei rhoi i bob parti yn y cyfarfod hwn. Dylid cynnal y cyfarfod o fewn tri diwrnod gwaith i'r digwyddiad.</li> <li>• Dylai'r Uwch Swyddog Cyfrifol gysylltu â'r timau rheoli lleol i weld a oes problemau penodol gan y timau a allai effeithio ar benderfyniadau, er enghraifft gweithwyr o aelwydydd eithriadol o agored i niwed.</li> <li>• Mae'r Uwch Swyddog Cyfrifol yn gyfrifol am sicrhau bod negeseuon cyfathrebu priodol yn cael eu darparu i staff yn yr adeilad(au) fel y mae amserlenni'n caniatáu. Bydd hyn yn helpu pobl i hunanasesu eu lefel risg bersonol a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth.</li> <li>• Mae'n rhaid i staff sy'n penderfynu bod angen iddynt hunanynysu hysbysu eu rheolwr llinell cyn gwneud hynny.</li> </ul>
3	<p><b>Glanhau</b></p> <p>Glanhau'r adeilad/gofod</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd Rheolwr Cyfleusterau yr adeilad yn dilyn gweithdrefnau adeiladau ar gyfer comisiynu gwaith glanhau trylwyr, brys o'r ardal heintiedig sy'n bodloni'r canllawiau a gyhoeddwyd gan <a href="#">Public Health England (PHE) COVID-19: Cleaning in a non-healthcare setting</a>.</li> <li>• Mae Asesiad Risg Gweithle a Chyfleusterau Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi risgiau a mesurau rheoli glanhau y dylid eu hystyried mewn perthynas ag ardaloedd heintiedig.</li> <li>• Dylid hysbysu glanhawyr o'r angen i lanhau'n drylwyr o fewn 2 awr ac mae'n rhaid cau'r ardal sydd wedi'i heffeithio. <b>Bydd</b></li> </ul>

		<p><b>glanhau trylwyr yn digwydd o fewn 1 awr pan fo glanhawyr ar y safle eisoes ac o fewn 4 awr yn achos safleoedd eraill yn dilyn hysbysu.</b> Disgwylir y bydd pob parti'n ceisio ailagor yr ardal yn ddiogel o fewn 72 awr (yn amodol ar asesiad risg pellach).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Mae Vinci Facilities yn deall ac yn gallu bodloni'r safonau gofynnol yn y canllawiau uchod.</b></li> </ul>
4	<b>Profi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profi Orlhain Diogelu yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau a fydd yn helpu dinasyddion Cymru i ailafael yn eu bywydau arferol yn raddol ac yn ddiogel.</li> <li>• Mae rhagor o wybodaeth am Profi Orlhain Diogelu ar gyfer cyflogwyr <a href="#">yma</a>.</li> <li>• Os yw gweithiwr yn dangos o leiaf un symptom o'r coronafeirws – peswch parhaus newydd, tymheredd uchel, neu golli synnwyr arogleuo neu flasu arferol neu fod hynny'n newid, mae'n rhaid iddo gael prawf o fewn y pum niwrnod cyntaf o ddatblygu symptomau.</li> <li>• Mae'n rhaid i weithwyr ac aelodau o'u cartref ddilyn y <a href="#">canllawiau hunanynysu</a> hefyd. Os yw'r prawf yn negatiff, nid oes angen gwneud unrhyw beth arall ac nid oes angen i'r gweithiwr ac aelodau eraill o'r cartref hunanynysu mwyach. Gall y gweithiwr ddychwelyd i'r gwaith. Fodd bynnag, os yw'r canlyniad yn positif, bydd y broses olrhain cysylltiadau'n cychwyn.</li> <li>• Cyfrifoldeb y gweithiwr yw hysbysu ei gyflogwr ei fod wedi derbyn canlyniad prawf positif.</li> </ul>
4	<b>Olrhain Cysylltiadau</b>	

Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio'n raddol bydd angen i ni i gyd gymryd camau i ddiogelu ein hunain – yn cynnwys cyflogwyr i ddiogelu eu gweithwyr, os ydym am lwyddo i gyfyngu ar ledaeniad yr haint. Bydd olrhain cysylltiadau yn bwysig iawn i gyflogwyr o ran gallu cynnal parhad y busnes a gweithredu gweithle diogel.

Mae rhagor o wybodaeth am olrhain cysylltiadau ar gyfer cyflogwyr ar gael [yma](#).

- Pan fydd eich gweithiwr yn cael canlyniad positif bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu ag ef ar ran gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu GIG Cymru.
- Bydd y swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am wybodaeth fel y llefydd mae wedi ymweld â nhw, a'i gysylltiadau diweddar yn cynnwys unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio ag ef neu beidio ac y mae wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod yn dechrau hyd at ddau ddiwrnod cyn iddo ddechrau cael symptomau.
  - Bydd gofyn iddo roi enw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhif ffôn (yn cynnwys ffôn symudol) a chyfeiriad e-bost y bobl hyn os oes ganddo'r manylion hyn.
- Ystyr cyswllt yw:
  - rhywun o fewn 1 metr iddo y mae wedi cael sgwrs wyneb yn wyneb ag ef, wedi cael cyswllt corfforol croen i groen gydag ef, wedi peswch arno, neu wedi bod mewn mathau eraill o gysylltiad o fewn 1 metr neu am 1 funud neu fwy
  - rhywun o fewn 2 fetr iddo am fwy na 15 munud
  - rhywun y mae wedi teithio mewn cerbyd ag ef – neu sydd wedi bod yn eistedd yn agos ato ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Os yw gweithiwr yn cael cyfarwyddyd i hunanynysu am 14 diwrnod am iddo ddod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael prawf positif am y coronafeirws, ac nad yw'n gallu gweithio o ganlyniad, dylai eich hysbysu nad yw'n gallu gweithio o fewn yr amserlen rydych wedi'i nodi yn eich polisiau absenoldeb salwch (neu o fewn 7 niwrnod fel rheol os nad ydych wedi creu amserlen o'r fath). Mae polisi rheoli presenoldeb Llywodraeth Cymru yn

		<p>gofyn i staff ein hysbysu ni cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r <a href="#">e-ffurflen hunanynysu</a>.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd cadarnhad ysgrifenedig o'r cyfarwyddyd i hunanynysu'n cael ei ddarparu i gysylltiadau a gall rannu'r ddogfen hon â chi.</li> <li>• Os oes sawl achos o'r coronafeirws yn ymddangos yn y gweithle bydd tîm rheoli achos o naill ai'r awdurdod lleol perthnasol neu lechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei ddynodi, os oes angen, i'ch helpu chi fel cyflogwr i reoli'r achos.</li> </ul>
5	<p><b>Adolygu'r Asesiad Risg</b></p> <p>Adolygu'r asesiad risg ar y cyd cyn ailagor yr adeilad. Dylai'r cyd-grŵp gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr Uwch Swyddog Cyfrifol</li> <li>• Y swyddog AD/lechyd a Diogelwch uchaf ei statws sy'n gweithio yn y safle sydd wedi'i effeithio yn yr adran sydd wedi'i heffeithio</li> <li>• Y swyddogion cangen Undebau Llafur a chynrychiolwyr lechyd a Diogelwch undebau llafur uchaf eu statws sy'n gyfrifol am y safle sydd wedi'i effeithio yn yr adran sydd wedi'i heffeithio</li> <li>• Cynrychiolydd Rheoli Cyfleusterau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyn i staff ddychwelyd i'r gofod heintiedig mae'n RHAID cynnal asesiad risg newydd a'i gofnodi gyda mewnbwn gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol, AD, lechyd a Diogelwch, cynrychiolwyr undebau llafur yn cynnwys cynrychiolwyr lechyd a Diogelwch a Rheoli Cyfleusterau</li> </ul>